Giving for life - What is it?

Giving for Life helps parishes review their approach to issues of stewardship and generosity, within a context of discipleship.

Rhoi er mwyn Byw – Beth yw e?

Mae Rhoi er mwyn Byw yn helpu plwyfi i adolygu eu hymagwedd at faterion stiwardiaeth a haelioni, a hynny yng nghyd-destun bod yn ddisgyblion.

8 Point Plan Summary

Cynllun Cryno mewn 8 Pwynt

Diocese of Llandaff

Esgobaeth Llandaf

This Giving for Life Guide has been re-produced with permission from National Stewardship Committee.
Mae'r Canllaw hwn ynghylch Rhoi er mwyn Byw wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd y Pwyllgor Stiwardiaeth Cenedlaethol.

Giving for Life – Summary 8 Point Plan

> ***Remember this: whoever sows sparingly will also reap sparingly, and whoever sows generously will also reap generously.***
> ***Each of you should give what you have decided in your heart to give, not reluctantly or under compulsion, for God loves a cheerful giver.*** 2 Cor 9 v6,7

As Christians, we are called by God to give and live generously. This will enable God's work to happen, both in your local community, and church and wider world too. Christians have a distinctive understanding of giving and sharing; it shapes and changes how we live and informs our decisions and actions; giving is at the heart of faith.

Giving for Life assist parishes with a suite of resources for parishes to use which nurture generosity with our diocese. http://www.parishresources.org.uk/givingforlife/

1. Preach and teach regularly about giving in the context of discipleship

Money, wealth and possessions, are the single biggest subjects of Jesus' parables (over 2,300 verses in the bible in fact). Both Old & New Testaments are packed full of teaching on how we best use what God has given to us. Yet all too often money related preaching is focused on giving to the church, whereas the generosity and grace of God should be the starting point of our preaching. An overflowing generosity is at the heart of God's character. Our preaching needs to point to the connection between the lives of our congregation and the grace of God. Preaching stewardship should be a joy and a pleasure – there are no shortage of opportunities from the lectionary.



Remember, this is about giving, not getting; it's about faith-raising, not fund-raising!

Stewardship for Sundays: Preaching notes on the theme of "giving" for the Revised Common Lectionary.

See http://www.parishresources.org.uk/wp-content/uploads/s4sundays.pdf

2. Clearly communicate that giving to the church enables the mission and ministry that flows from it

When talking about money, many churches focus on their costs or budget shortfall, but givers need to hear wider faith perspectives, and what their giving enables in terms of both current ministry and future vision. This not only stimulates increased generosity, but also helps givers decide how to allocate their giving between church and the other causes and charities the Lord has put on their hearts. When it comes to matters of giving and money, questions such as "where does my giving go to?" and "What difference does my giving make?" are frequently asked. How well does your church answer these important questions?

By regularly making direct connections between giving and the life and work of your local church, people will begin to understand and appreciate the real difference regular, planned and tax efficient giving makes to the life of our church. Your latest Mission Action Plan is an ideal way to do this; so, make sure you share it.
See www.parishresources.org.uk/givingforlife for ideas to help you do this.

Rhoi er mwyn Byw – Cynllun Cryno mewn 8 Pwynt

> ***Cofiwch hyn: a heuo'n brin a fed yn brin, a heuo'n hael a fed yn hael. Rhaid i bawb roi o wirfodd ei galon, nid o anfodd neu o raid, oherwydd rhoddwr llawen y mae Duw'n ei garu.*** 2 Cor 9 adnod 6-7

A ninnau'n Gristnogion, rydym wedi'n galw gan Dduw i roi ac i fyw yn haelionus. Bydd hyn yn caniatáu i waith Duw ddigwydd, yn eich cymuned leol, a'ch eglwys ac yn y byd ehangach hefyd. Mae gan Gristnogion ddealltwriaeth neilltuol o ystyr rhoi a rhannu; mae'n llunio ac yn newid ein ffordd o fyw ac yn bwydo'n penderfyniadau a'n gweithredoedd; mae rhoi yn ganolog i ffydd.

Mae *Rhoi er mwyn Byw* yn helpu plwyfi drwy gynnig cyfres o adnoddau i'w defnyddio i hybu haelioni o fewn yr esgobaeth: http://www.parishresources.org.uk/givingforlife/

1. Pregethwch ac addysgwch yn gyson am roi yng nghyd-destun disgyblaeth

Arian, cyfoeth ac eiddo yw prif bynciau damhegion yr Iesu (mwy na 2,300 o adnodau yn y Beibl a dweud y gwir). Mae'r Hen Destament a'r Testament Newydd yn llawn o ddysgeidiaeth ar y ffordd orau i ddefnyddio'r hyn y mae Duw wedi'i roi inni. Eto i gyd, yn rhy aml mae pregethau am roddion yn canolbwyntio ar roi i'r eglwys, er mai haelioni a gras Duw a ddylai fod yn fan cychwyn i'n gwaith pregethu. Haelioni di-ben-draw sydd wrth galon cymeriad Duw. Mae angen i'n pregethau gyfeirio at y cysylltiad rhwng bywydau'r gynulleidfa a gras Duw. Dylai pregethu stiwardiaeth fod yn destun llawenydd a phleser – does dim prinder cyfleoedd yn y llithiadur.



Cofiwch, rhoi sydd dan sylw, nid cael; codi ffydd ac nid codi arian!

Stiwardiaeth ar y Sul: Nodiadau pregethu ar thema "rhoi" i'r Llithiadur Cyffredin Diwygiedig.

Gweler http://www.parishresources.org.uk/wp-content/uploads/s4sundays.pdf

2. Cyfathrebwch yn glir fod rhoi i'r eglwys yn caniatáu'r genhadaeth a'r weinidogaeth sy'n deillio ohono

Wrth siarad am arian, bydd llawer o eglwysi'n canolbwyntio ar eu costau neu ar y diffyg yn y gyllideb, ond mae angen i roddwyr glywed safbwyntiau ehangach y ffydd, a'r hyn y mae eu rhodd yn ei ganiatáu o ran y weinidogaeth bresennol a'r weledigaeth at y dyfodol. Mae hyn nid yn unig yn symbylu mwy o haelioni, ond mae hefyd yn eu helpu i benderfynu sut i ddyrannu eu rhoddion rhwng yr eglwys a'r achosion a'r elusennau eraill y mae'r Arglwydd wedi'u rhoi yn eu calonnau. O ran rhoddion ac arian, mae cwestiynau fel "Ble mae fy rhodd i'n mynd?" a "Pa wahaniaeth mae fy rhodd yn ei wneud?" yn codi'n aml. Pa mor dda yw atebion eich eglwys chi i'r cwestiynau hyn?

Drwy wneud cysylltiad uniongyrchol yn gyson rhwng rhoddion a gwaith a bywyd eich eglwys leol, bydd pobl yn dechrau deall a gwerthfawrogi'r gwahaniaeth y gall rhoddion rheolaidd, sydd wedi'u cynllunio ac sy'n effeithlon o ran treth, ei wneud ym mywyd yr eglwys. Mae'ch Cynllun Gweithredu Cenhadaeth diweddaraf yn ffordd ddelfrydol i wneud hyn; felly, gofalwch rannu'r cynllun hwn.
I gael syniadau i'ch helpu yn hyn o beth, gweler www.parishresources.org.uk/givingforlife.

3. *Hold some form of annual review of giving*

We all need to make time to regularly review our finances; local church finances are just the same. It's good practice to ask givers to review their giving annually. Failure to do this, is the biggest single factor for churches who have struggled with aspects of giving and generosity. What seemed like healthy levels of giving just a few years ago, might no longer be nearly as healthy now. Inflation constantly erodes the real value of financial gifts. It's also true that it's far easier and better to encourage people to increase their giving 'little and often', than it is to take a 'big leap' very occasionally. We all want the very best for the life of our local church; and more importantly to honour God with our giving in the best way we can; but we're all 'creatures of habit' and we all need a gentle reminder from time-to-time to pray, review and renew our offering.

See www.parishresources.org.uk/givingforlife/annualreview for templates and ideas.

4. *Send an annual, personal 'thank you' to regular givers*

It's far too easy to take people for granted; and we're all guilty of it. The local church has many opportunities to thank people for the many different ways that they give. To give thanks is at the heart of our worship as Christians; 'Eucharist' literally translates as 'thanksgiving'. To give thanks to God for all that he has given to us, and to then fail to thank each other for the ways in which generous living and giving makes a real difference, would be very strange indeed. Thanking people regularly within acts of worship, each year at the Annual Vestry Meeting, through church and community social media pages, websites and magazines all makes a huge difference. Best of all, thank people personally; face to face; visiting all your church volunteers and givers each year can be both a rewarding and humbling experience. Sending an annual letter of thanks to all givers is good practice. Take this opportunity to share achievements of your church during the past year to make a direct connection to the difference generous giving really makes.

See www.parishresources.org.uk/givingforlife for templates and ideas.

5. *Agree a legacy policy and communicate this to the congregation*

Legacies are a lifeline for our parishes. These gifts make a real difference to the future work of the Church, as regular giving often concentrates on maintaining the existing mission and ministry. Our stewardship beliefs and practices teach us that when we have no further use for our earthly possessions, we give back to God. Gifts in Wills are an important part of Christian giving, and leaving a gift to your church is a way to thank God for all the blessings you have received in your lifetime.

Most people will only leave a gift in their will if they think their church will use it for worthwhile projects, not simply to fund operating costs. A legacy policy allows the PCC to prepare and discuss how they would wish to see a gift used. It can also help to reassure those interested that the PCC has a policy in place.

PCCs should agree a policy on how potential legacy income will be spent, and then communicate it to the congregation.

See: http://www.churchinwales.org.uk/structure/representative-body/publications/downloads/legacy-material/

3. *Trefnwch ryw fath o adolygiad blynyddol o'r rhoddion*

Mae angen inni i gyd wneud amser i adolygu'n cyllid yn rheolaidd; ac mae hi yr un fath o ran cyllid eglwysi lleol. Arfer da yw gofyn i'r rhoddwyr adolygu eu rhoddion bob blwyddyn. Methu gwneud hyn yw'r ffactor unigol mwyaf i eglwysi sy'n cael anawsterau o ran agweddau ar roi a haelioni. Gall lefel rhoddion a oedd yn ymddangos yn iach ychydig flynyddoedd yn ôl fod yn llawer llai iach erbyn hyn. Mae chwyddiant yn gostwng gwir werth rhoddion ariannol drwy'r amser. Mae hi hefyd yn wir ei bod yn haws ac yn well annog pobl i gynyddu eu rhoddion 'ychydig ac yn aml' na gofyn iddyn nhw wneud naid fawr ambell waith. Rydyn ni i gyd eisiau'r gorau ym mywyd ein heglwys leol; ac yn bwysicach na hynny anrhydeddu Duw drwy roi yn y modd gorau posibl; ond mae gennyn ni i gyd ein hen arferion ac mae angen inni i gyd gael ein hatgoffa o dro i dro i weddïo, adolygu ac adnewyddu'n cyfraniad.

I gael templedi a syniadau, gweler www.parishresources.org.uk/givingforlife/annualreview.

4. *Anfonwch air o ddiolch personol bob blwyddyn at roddwyr cyson*

Mae'n llawer rhy hawdd cymryd pobl yn ganiataol; ac rydyn ni i gyd yn euog ohono. Mae gan yr eglwys leol lawer o gyfleoedd i ddiolch i bobl am eu nifer fawr o ffyrdd gwahanol o roi. Mae rhoi diolch wrth galon ein haddoli fel Cristnogion; 'rhoi diolch' yw ystyr lythrennol 'Ewcharist'. Rhyfedd iawn fyddai diolch i Dduw am bopeth y mae wedi'i roi inni, a methu wedyn â diolch i'n gilydd am y modd y mae byw a rhoi yn hael yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae diolch i bobl yn rheolaidd wrth addoli, bob blwyddyn yn y Cwrdd Festri Blynyddol, drwy dudalennau eglwysig a chymunedol yn y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a chylchgronau, i gyd yn gwneud gwahaniaeth aruthrol. Gorau oll, diolchwch i bobl yn bersonol, wyneb yn wyneb; gall mynd i weld holl wirfoddolwyr a rhoddwyr yr eglwys bob blwyddyn fod yn brofiad boddhaus a gwylaidd. Arfer da yw anfon llythyr i ddiolch i bob rhoddwr bob blwyddyn. Achubwch ar y cyfle i rannu campau'r eglwys yn ystod y flwyddyn a fu, a gwneud cysylltiad uniongyrchol â'r gwahaniaeth gwirioneddol sy'n dod yn sgil rhoddion hael.

I gael templedi a syniadau, gweler www.parishresources.org.uk/givingforlife.

5. *Cytunwch ar bolisi cymynroddion a'i gyfleu i'r gynulleidfa*

Mae cymynroddion yn hynod bwysig i'n plwyfi. Mae'r rhoddion hyn yn gwneud gwir wahaniaeth i waith yr Eglwys at y dyfodol, gan fod rhoddion cyson yn aml yn canolbwyntio ar gynnal y genhadaeth a'r weinidogaeth bresennol. Mae'n daliadau a'n harferion ym maes stiwardiaeth yn dysgu ein bod yn rhoi yn ôl i Dduw pan na fydd gennyn ni ragor o ddefnydd i'n heiddo daearol. Mae rhoddion mewn ewyllys yn rhan bwysig o roi Cristnogol, ac mae gadael rhodd i'ch eglwys yn ffordd i ddiolch i Dduw am yr holl fendithion a gawsoch yn ystod eich oes.

Dim ond os byddan nhw'n credu y bydd yr eglwys yn ei defnyddio ar brosiectau gwerthfawr, ac nid ar gostau rhedeg yn unig, y bydd y rhan fwyaf o bobl yn fodlon gadael rhodd yn eu hewyllys. Drwy arddel polisi ar gymynroddion, gall y Cyngor Plwyf Eglwysig baratoi a thrafod sut yr hoffen nhw weld rhodd yn cael ei defnyddio. Gall hyn helpu i roi sicrwydd hefyd i'r rhai sydd â diddordeb fod polisi gan y Cyngor Plwyfol Eglwysig.

Dylai Cynghorau Plwyfol Eglwysig gytuno ar bolisi ar sut y caiff incwm o gymynroddion posibl ei wario, a mynegi'r polisi hwnnw i'r gynulleidfa.

Gweler: http://www.churchinwales.org.uk/structure/representative-body/publications/downloads/legacy-material/

6. *Claim Gift Aid regularly, including the Small Donations Scheme*

There is no easier way of boosting income than by claiming the tax relief the parish is entitled to, but it is important to get the claims process right. One of the most important things to do each year is to remind your donors to check that they are still taxpayers and notify you if they are no longer paying sufficient tax – the personal allowance has risen in recent years, taking a number of people on lower incomes out of the tax bracket. You could include a request for confirmation of a donor's latest tax status, as part of your annual thank you letter to all donors.

The Gift Aid Small Donations Scheme (GASDS) allows parishes to claim a Gift Aid style repayment to be received on small cash and contactless donations of £20 or less up to a threshold of £8,000 of donated income per tax year per church. (The £8,000 threshold applies from the 2016/17 tax year – the limit for prior years was £5,000).

See www.parishresources.org.uk/giftaid and http://www.parishresources.org.uk/giftaid/smalldonations/

7. *Use the Parish Buying Service*

Good stewardship isn't just about encouraging generous giving; it is also about spending wisely. The parish buying service provides national contracts for many goods and services parishes use – energy, photocopiers, paper and office products, software, telecoms, fire safety and so on. This helps us take advantage of the scale of the church's overall buying power. You'll also find Buying Guides to help you make good decisions about insuring your church, manage capital projects and view buying decisions as part of your stewardship.

All this and more at www.parishbuying.org.uk

8. *Use the Gift Direct scheme*

Gift Direct is a scheme administered by the Representative Body of the Church in Wales whereby donations are received, a gift aid claim is submitted (if eligible donation) and all the money is paid directly into the parish bank account. There is also an option for donors to future proof their donation and increase their donation annually by RPI. This gives parishes certainty of income, a reduction in risk as less cash is held, and less administration as the associated gift aid claims are made and remitted to the parish monthly by the RB. The RB also send an annual thank you letter to donors on behalf of the parish, and there is no charge for this service.
For full details of the Gift Direct Scheme or to order leaflets and sign up packs visit: http://www.churchinwales.org.uk/resources/gift-direct/

6. Hawliwch Gymorth Rhodd yn rheolaidd, gan gynnwys y Cynllun Rhoddion Bach

Does dim ffordd haws i hybu incwm na thrwy hawlio'r rhyddhad rhag treth y mae gan y plwyf hawl i'w gael, ond mae'n bwysig trin a thrafod y broses hawlio yn gywir. Un o'r pethau pwysicaf i'w wneud bob blwyddyn yw atgoffa'ch rhoddwyr i wirio eu bod yn dal yn drethdalwyr a rhoi gwybod i chi os nad ydyn nhw'n talu digon o dreth mwyach – mae'r lwfans personol wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf, gan godi nifer o bobl ar incwm isel allan o'r garfan sy'n talu treth. Gallech gynnwys cais am gadarnhad o statws treth diweddaraf y rhoddwr fel rhan o'ch llythyr diolch blynyddol i bob rhoddwr.

Mae Cynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth (GASDS) yn caniatáu i blwyfi gael ad-daliad yn yr un modd â Rhodd Cymorth ar roddion bach mewn arian parod neu drwy gerdyn digyswllt o £20 neu lai, hyd at uchafswm o £8,000 o incwm a roddir i'r eglwys ym mhob blwyddyn dreth. (Mae'r uchafswm o £8,000 yn gymwys o flwyddyn dreth 2016-17 ymlaen – £5,000 oedd yr uchafswm yn y blynyddoedd blaenorol).

Gweler www.parishresources.org.uk/giftaid a http://www.parishresources.org.uk/giftaid/smalldonations/

7. Defnyddiwch y Gwasanaeth Prynu fel Plwyf

Mae stiwardiaeth dda yn golygu mwy na hybu rhoddion hael; mae'n cynnwys gwario'n ddoeth hefyd. Mae'r gwasanaeth Prynu fel Plwyf yn darparu contractau cenedlaethol ar gyfer llawer o nwyddau a gwasanaethau y mae plwyfi'n eu defnyddio – ynni, llungopïwyr, papur a deunyddiau swyddfa, meddalwedd, telathrebu, diogelwch rhag tân etc. Mae hyn yn ein helpu i fanteisio ar rym prynu cyffredinol yr eglwys. Fe welwch chi Ganllawiau Prynu hefyd i'ch helpu i wneud penderfyniadau da ynghylch yswiriant, rheoli prosiectau cyfalaf a gweld penderfyniadau prynu fel rhan o'ch stiwardiaeth.

Hyn oll a rhagor yma: www.parishbuying.org.uk

8. Defnyddiwch y Cynllun Rhoi yn Syth

Mae Rhoi yn Syth yn gynllun sy'n cael ei weinyddu gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Yn y cynllun hwn, mae cyfraniadau'n cael eu rhoi, ac mae hawliad am Gymorth Rhodd yn cael ei wneud (os yw'r cyfraniad yn gymwys) ac mae'r arian i gyd yn cael ei dalu'n syth i gyfrif banc y plwyf. Mae yna opsiwn hefyd lle gall y rhoddwyr ddiogelu eu cyfraniad at y dyfodol a'i gynyddu i gyfateb i unrhyw gynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Mae hyn yn cynnig sicrwydd incwm i'r plwyfi, yn lleihau'r risg gan fod llai o arian parod yn cael ei ddal, ac yn lleihau'r gwaith gweinyddu gan fod y ceisiadau am Gymorth Rhodd yn cael eu gwneud gan y Corff Cynrychiolwyr a'u hanfon i'r plwyf bob mis. Mae'r Corff Cynrychiolwyr hefyd yn anfon llythyr diolch bob blwyddyn at y rhoddwyr ar ran y plwyf, a does dim rhaid talu am y gwasanaeth.

I gael manylion llawn cynllun Rhoi yn Syth neu i archebu taflenni a phecynnau ymuno, ewch i: http://www.churchinwales.org.uk/resources/gift-direct/

Diocese of Llandaff

Esgobaeth Llandaf

This Giving for Life Guide has been re-produced with permission from National Stewardship Committee.
Mae'r Canllaw hwn ynghylch Rhoi er mwyn Byw wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd y Pwyllgor Stiwardiaeth Cenedlaethol.